

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 34/2024

DYDDIAD CYHOEDDI: 23/05/2024



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg ail-gysylltu â defnyddwyr Croeso Cymru – Adroddiad yr Almaen (2024)

ISBN Digidol: **978-1-83625-112-5**

© Hawlfraint y Goron

This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg ail-gysylltu â defnyddwyr Croeso Cymru –
Adroddiad yr Almaen (2024)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 34/2024

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-ailgysylltu-defnyddwyr-croeso-cymru-15-chwefror-i-3-mawrth-2024>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru,
Economi, Ynni a'r Iaith Gymraeg
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru





Cynnwys

- 01 Cefndir a Methodoleg
- 02 Canfyddiadau Allweddol
- 03 Proffil Ymholwyr Croeso Cymru
- 04 Trosi Taith a Pherthynas â Chymru 2023
- 05 Nodweddion Taith 2023
- 06 Effaith marchnata Croeso Cymru
- 07 Tebygolrwydd o ymweld â Chymru yn 2024
- 08 Rhesymau dros beidio â mynd ar daith i Gymru yn 2023



CEFNDIR A METHODOLEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD





Sbarduno Twristiaeth i Gymru: Mewnwelediadau gan Ymholwyr Almaeneg

Croeso Cymru, asiantaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am ddefnyddio ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i osod Cymru fel cyrchfan twristiaeth blaenllaw.

Mae'r adroddiad manwl hwn yn dadansoddi data o arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 ymhlith cysylltiadau defnyddwyr Almaenig Croeso Cymru (cyfeirir atynt fel 'ymholwyr' drwyddo draw). Mae adroddiad ar wahân ar gael i ymholwyr y DU ac Iwerddon.

Prif amcanion ymchwil yr arolwg oedd:

- Asesu trosi taith a pherthynas â Chymru
- Deall nodweddion teithiau a gymerwyd yn 2023
- Mesur effaith y marchnata
- Deall y cynlluniau ar gyfer teithiau yn 2024
- Asesu'r rhesymau dros beidio â mynd ar daith yn 2023





Methodoleg

Cysylltodd Croeso Cymru ag ymholwyr drwy e-bost ym mis Chwefror 2023 a gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg ar-lein 10 i 15 munud a oedd ar gael yn Almaeneg. Anfonwyd nodyn atgoffa o'r gwahoddiad at y rhai nad oeddent wedi'i agor wythnos ar ôl rhannu'r gwahoddiad cyntaf. Cynigiwyd cymhelliad raffl hefyd.

Rhoddwyd 18 diwrnod i gyfranogwyr gwblhau'r arolwg - gyda'r arolwg yn agor ar 15 Chwefror ac yn cau am 5pm ar 3 Mawrth.

Sampl a Chyfradd Ymateb

Deilliodd y sampl o sawl ffynhonnell wahanol, gan adlewyrchu sut y bu ymholwyr mewn cysylltiad â Croeso Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu ffynonellau'r sampl a nifer y cysylltiadau sydd ar gael yn ôl ffynonellau'r sampl ac ar lefel gyfan.

Ffynonellau'r Sampl	Meintiau Sampl
Ymholwyr gwefan	5,517
Ymholwyr ymgyrch	4,029
Cyfanswm y SAMPL	9,546

O'r 9,546 o wahoddiadau a anfonwyd at ymholwyr, derbyniwyd 1,619 o ymatebion i'r arolwg wedi'u cwblhau, **gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 17%.**





Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio sawl term i ddiffinio'r ymatebwyr i'r arolwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ymholwyr Croeso Cymru:** Cyfanswm poblogaeth yr arolwg - cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn.
- **Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg eu bod wedi cymryd egwyl fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023
- **Pobl nad ydynt yn ymweld â Chymru:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg na wnaethant gymryd egwyl fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023
- **Pobl sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg eu bod yn bwriadu cymryd egwyl fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024

Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y canlynol:

- **Rhag-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Pobl annibynnol hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oed ymddeol:** 65+ oed



CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD





Canfyddiadau Allweddol - Almaen



Profiad Ymwelwyr

Roedd teithiau i Gymru yn uchel eu parch am ddiogelwch, lletygarwch a harddwch naturiol. Fodd bynnag, roedd ymwelwyr yn llai cadarnhaol am yr isadeiledd.

Gweithgareddau a Diddordeb

Mae'r dirwedd naturiol a gweithgareddau diwylliannol yn denu twristiaid, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.

Teithio Estynedig

Ymestynnodd y rhan fwyaf o dwristiaid o'r Almaen eu teithiau i rannau eraill o'r DU ac Iwerddon.

Cyfathrebu a Marchnata

Roedd cyfathrebiadau Croeso Cymru yn ddylanwadol ar gyfer 30% o benderfyniadau teithwyr.

Ailadrodd yr Ymweliad

Mae tua hanner yr ymwelwyr yn cynllunio taith arall yn 2024, er y gallai teuluoedd fod yn llai tebygol o ddychwelyd.

Rhesymau dros Beidio ag Ymweld

Amgylchiadau personol a Brexit oedd y prif resymau a roddwyd dros beidio ag ymweld â Chymru.



PROFFIL YMHOLOWYR CROESO CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Roedd poblogaeth y sampl wedi'i rhannu'n gyfartal, gyda 50% yn nodi eu bod yn wrywaidd a 49% yn nodi eu bod yn fenywaidd. Mae'r cyfansoddiad hwn yn debyg i'r arolwg cyfatebol a gynhaliwyd yn 2023.

 Cyfnod bywyd	2023	2024 (yr adroddiad hwn)
Rhag-nythwyr	7%	5%
Teuluoedd	13%	13%
Pobl annibynnol hŷn	56%	59%
Oed ymddeol	23%	23%




 Oed	2023	2024 (yr adroddiad hwn)
16-34	9%	7%
35-54	36%	33%
55-64	33%	37%
65+	23%	23%

X1. Sut ydych chi'n disgrifio'ch rhyw?
X2. Nodwch eich oedran.
X2b. A oes gennych unrhyw blant 15 oed neu iau yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol ac ati)? Cyfanswm, n=1619.



O gymharu â 2023, mae llai o ymatebwyr nad ydynt wedi ymweld â Chymru o'r blaen, ac mae'r rhai sydd wedi bod yn fwy tebygol o ystyried dychwelyd.


Perthynas â Chymru



A1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â Chymru? Cyfanswm, n=1287 (2023), n=1619 (2024).

Mae'r mwyafrif helaeth o ymholwyr Almaenig yn bobl annibynnol hŷn, sy'n fwyaf tebygol o ddod trwy'r ymgyrchoedd. Mae pobl sydd wedi ymddeol yn fwy tebygol o wneud ymholiadau trwy'r wefan.

Cyfnod bywyd yn ôl ffynhonnell sampl




X2. Nodwch eich oedran.

X2b. A oes gennych unrhyw blant 15 oed neu iau yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol ac ati)? Cyfanswm, n=1619 (Gwefan n=1209, Ymgyrch n=410).

Gogledd Rhine-Whestphalia, Bafaria a Baden-Württemberg yw'r rhanbarthau mwyaf cyffredin yn y sampl. Mae hyn yn gyson ar draws ffynhonnell y sampl.

Rhanbarth preswyllo



TROSI TAITH A PHERTHYNAS Â CHYMRU 2023





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Dywedodd llai na chwarter eu bod wedi cymryd gwyliau neu daith fer yng Nghymru yn 2023. Rhag-nythwyr oedd yn fwy tebygol o fynd ar daith mewn gwirionedd, pobl wedi ymddeol leiaf.

A gymerwyd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023




A2a. A aethoch chi ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=828 (Rhag-nythwyr n=31*, Teuluoedd n=111, Pobl Annibynol Hŷn n=486, Oed ymddeol n=200). *maint sylfaen isel






Ar gyfartaledd, cymerodd teithwyr o'r Almaen 2.35 daith fer neu wyliau i Gymru yn 2023.

Nifer y teithiau byr neu wyliau a gymerwyd yng Nghymru yn 2023



Mae pobl sydd wedi ymddeol ac ymatebwyr sy'n defnyddio'r wefan yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar daith cyn 2023. Mae tua thri chwarter wedi mynd ar daith i Gymru cyn 2020.

Pryd cymerwyd teithiau byr neu wyliau yng Nghymru cyn 2023



A2b. A aethoch chi ar daith fer neu wyliau yng Nghymru cyn 2023?
Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=828 (Rhag-nythwyr n=31*, Teuluoedd n=111, Pobl Annibynol Hŷn n=486, Oed ymddeol n=200). *maint sylfaen isel



Trosi taith a pherthynas â Chymru 2023

Tueddiadau Demograffig

Mae'r astudiaeth yn amlygu bod rhag-nythwyr yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar daith yn 2023, gyda phobl wedi ymddeol leiaf tebygol.

Patrymau Teithio'r Gorffennol

Ymwelodd 82% o'r rhai sydd wedi ymddeol â Chymru cyn 2020.



NODWEDDION TAITH 2023




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Dywedodd y rhan fwyaf o ymwelwyr dros nos yn 2023 fod eu profiad yng Nghymru yn 'Ardderchog', gan aros yn sefydlog o'i gymharu â'r llynedd.

Sut brofiad oedd aros yng Nghymru




A15. Gan fynd yn ôl i'ch taith i Gymru/yng Nghymru yn 2023, pa sgôr o 1 i 10 y byddech chi'n ei rhoi i'ch profiad cyffredinol lle mae 1 yn wael iawn a 10 yn dda iawn? Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=123 (2022), n=199 (2023).



Roedd ymwelwyr Croeso Cymru 2023 yn fodlon iawn ar y teimlad o ddiogelwch, y croeso a gawsant ac ansawdd yr amgylchedd naturiol.


Bodlonrwydd gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad â Chymru, y 12 uchaf



A16/17. Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich taith yng Nghymru? Ticiwch 'ddim yn berthnasol' os nad yw opsiwn yn berthnasol i chi (1=Anfodlon iawn, 10= Bodlon iawn). Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel yn seiliedig ar fodlonrwydd.

Roeddent fwyaf anfodlon gyda chost parcio ac argaeledd toiledau cyhoeddus a thrafnidiaeth.

Bodlonrwydd gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad â Chymru, y 12 isaf



■ Bodlonrwydd isel ■ Bodlonrwydd cymedrol ■ Bodlonrwydd uchel

A16/17. Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich taith yng Nghymru? Ticiwch 'ddim yn berthnasol' os nad yw opsiwn yn berthnasol i chi (1=Anfodlon iawn, 10= Bodlon iawn). Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel yn seiliedig ar anfodlonrwydd.



Dewisodd 64% ymweld â Chymru 'Cysylltu â natur' a 49% 'Profi'r diwylliant a'r dreftadaeth'.

Rhesymau dros ddewis Cymru fel cyrchfan




A7. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oedd y prif ffactorau dros ddewis Cymru fel cyrchfan ar gyfer y daith fer hon/gwyliau hyn yn 2023?

Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel yn seiliedig ar gyfartaledd.



Yn unol â'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros ymweld,
'Cerdded, heicio neu grwydro' oedd y gweithgareddau
mwyaf poblogaidd.


Gweithgareddau a wnaed yng Nghymru yn 2023, y 12 uchaf



A14. Pa rai, os o gwbl, wnaethoch chi ar y daith hon i Gymru/yng Nghymru yn 2023?
Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel (y 12 uchaf).


Denodd Gogledd Cymru y nifer uchaf o ymweliadau dros nos gan ymholwyr o'r Almaen, ac yna'r De-Orllewin, arhosodd y rhan fwyaf mewn sawl man, yn wahanol i'r llynedd.

Ble yng Nghymru arhosoch chi?



1% ddim yn gwybod / methu cofio

A arhosoch chi aros mewn un neu sawl lleoliad?




A12. Ble yng Nghymru arhosoch chi dros nos ar y daith hon? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

A13. Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau eich taith yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=123 (2022), n=199 (2023).

Mae misoedd yr haf yn parhau i fod yr amser mwyaf poblogaidd i ymweld â Chymru. Fodd bynnag, roedd Awst a Medi yn fwy poblogaidd yn 2022.

Mis y cymerwyd taith i Gymru yn 2022 neu 2023




A4. Ac ym mha fis(oedd) o'r flwyddyn ymweloch chi â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=123 (2022), n=199 (2023).




Yng Nghymru yn 2023, roedd ymwelwyr fel arfer yn mwynhau arosiadau hirach, bron i 10 noson ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, nifer y bobl yn y grŵp teithio oedd ychydig o dan 3 o bobl.

Am sawl noson arhosoch chi i ffwrdd?

Nifer y nosweithiau ar gyfartaledd yw 9.98 noson




Faint oedd yn eich criw?




A5. Ar y daith dros nos hon i Gymru/ynghymru, am sawl noson wnaethoch chi aros i ffwrdd?
A6. Gan gynnwys chi, faint o'r canlynol oedd yn eich grŵp uniongyrchol ar y daith dros nos hon i Gymru/ynghymru ym <mis>?
Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199.

Bu 73% o ymwelwyr Almaenig â Chymru hefyd yn archwilio cyrchfannau eraill o fewn y DU ac Iwerddon - Lloegr oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

A arhosoch chi dros nos mewn unrhyw rannau eraill o'r DU neu Iwerddon fel rhan o'r daith hon?



Ble arall, yn y DU ac Iwerddon, arhosoch chi?




A8. A wnaethoch chi aros dros nos mewn unrhyw rannau eraill o'r DU neu Iwerddon fel rhan o'r un daith hon? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199.
A8b. Ble arall yn y DU ac Iwerddon wnaethoch chi aros dros nos ar y daith hon? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023 a arhosodd yn rhywle arall, n=145.



Archebodd traean o'r rhai a aeth ar daith o Gymru eu llety 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety', gyda 'gwefan deithio' yn ail ddewis agos.

Sut archebwyd llety ar gyfer taith i Gymru

Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **33%**



Daeth **19%** o hyd i wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gyfer y llety y buont yn aros ynddo ar wefan Croeso Cymru

A9. Sut wnaethoch chi fwcio eich llety ar gyfer y daith hon i Gymru?
A10. A wnaethoch chi ddod o hyd i wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gyfer y llety yr arhosoch ynddo ar wefan Croeso Cymru? Pawb a archebodd llety, n=169. Wedi'u rhestru o uchel i isel.



Gwestai oedd y math o lety a ffefrir, ac yna rhentu.

Math o lety a arhoswyd ynddo

Gwesty / Motel / Tafarn **38%**

Tŷ/bwthyn/caban ar rent neu rywbeth tebyg 24%

Tŷ llety / Gwely a brecwast 22%

Fan wersylla / Cartref modur 11%

Cartref ffrind neu berthynas 11%

Rhentu cartref cyfan rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb) 9%

Fflat ar rent neu debyg 8%

Pabell 6%

A11. Ym mha fath/au o lety arhosoch chi yn ystod eich taith yn 2023 i Gymru/yngh Nghymru? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel (y 8 uchaf).





Deall nodweddion teithiau a gymerwyd yn 2023

Profiad Cadarnhaol


Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr o'r farn bod eu taith i Gymru yn 'Ardderchog' o ran diogelwch, lletygarwch a harddwch ond nodwyd problemau gydag isadeiledd.

Gweithgareddau

Mae llawer yn cael eu denu gan natur a diwylliant Cymru.

Teithio Estynedig

Bu tua thri chwarter yr ymwelwyr o'r Almaen hefyd yn archwilio cyrchfannau eraill yn y DU ac Iwerddon.



EFFAITH MARCHNATA CROESO CYMRU




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD




Dywedodd tua 30% fod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru. Cafodd dros draean eu dylanwadu i ymweld â rhan o Gymru nad oedden nhw wedi bod iddi o'r blaen.

Dylanwad cyfathrebu Croeso Cymru ar benderfyniad taith



Dylanwad Croeso Cymru ar ymddygiad

Ymwelais â rhan o Gymru nad oeddwn wedi bod iddi o'r blaen **36%**




A22. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yn 2023?

A23. Yn 2023, a effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich ymddygiad mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol... Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199.


Roedd y rhai oedd yn mynd ar deithiau i Gymru yn fwyaf tebygol o adrodd eu bod wedi gweld neu glywed am Gymru trwy hysbysebion gwefan ac ar-lein.

Amlygiad cyfathrebu

Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan **41%**





A18. Gan feddwl am farchnata a chyfathrebu, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a welsoch neu a glywsoch am Gymru yn ystod 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel.



E-gylchlythyrau yw'r ffordd fwyaf poblogaidd i ddarpar ymwelwyr dderbyn gwybodaeth gan Croeso Cymru. Mae rhag-nythwyr yn fwy tebygol o ddilyn Croeso Cymru ar Instagram.

Cyswllt â Croeso Cymru

Rwyf wedi derbyn e-gylchlythyrau gan Croeso Cymru **74%**




A19. Gan feddwl am y cyswllt a gawsoch chi gyda Croeso Cymru yn 2023, pa rai o'r canlynol sy'n berthnasol i chi? Cyfanswm, n=1619 828 (Rhag-nythwyr n=85*, Teuluoedd n=206, Pobl Annibynol Hŷn n=955, Oed ymdddeol n=373).


*maint sylfaen isel. Wedi'u rhestru o uchel i isel.

Roedd bron i hanner wedi gweld cyfathrebiad yn hyrwyddo Cymru mewn perthynas â 'lleoedd newydd'. O'r rhai a welodd y cyfathrebiad, dywedodd bron i hanner ei fod yn ddylanwadol.

Wedi gweld cyfathrebiadau yn hyrwyddo Cymru?



Dylanwad ar y penderfyniad i gymryd taith i Gymru*



A23a. Yn 2023, a welsoch chi unrhyw gyfathrebu yn hyrwyddo Cymru mewn perthynas â'r meysydd canlynol? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199 Wedi'u rhestru o uchel i isel. A23b. A pha mor ddylanwadol oedden nhw ar eich penderfyniad i fynd ar daith i Gymru/ynghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, Lleoedd Newydd n=91, Rheswm/rhesymau newydd i ymweld trwy gydol y flwyddyn n=51, Gweithgareddau Newydd n=46 & Digwyddiadau Newydd n=20. *maint sylfaen isel



Roedd dros hanner y rhai a ddaeth ar daith oherwydd Croeso Cymru eisoes wedi penderfynu cymryd taith fer neu wyliau i Gymru yn 2023 erbyn diwedd 2022.

Meddylfryd ynghylch ymweld â Chymru ar ddiwedd 2022

Roeddwn eisoes wedi penderfynu ymweld â Chymru yn 2023 **54%**

Roeddwn yn ystyried ymweld â Chymru yn 2023, ond nid oeddwn wedi gwneud penderfyniad terfynol **33%**

Nid oeddwn yn ystyried ymweld â Chymru yn 2023 **11%**


Ddim yn gwybod/methu cofio **2%**

A24. Yn olaf yn yr adran hon, gan feddwl yn ôl i ddiwedd 2022, pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau eich cynlluniau ar yr adeg honno i ymweld â Chymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=199. Wedi'u rhestru o uchel i isel.



Ceir mynediad i wefan Croeso Cymru yn amlach drwy gyfrifiadur gartref neu yn y gwaith, tra bod ffôn symudol yn cael ei ddefnyddio'n amlach yn ystod taith. Yn ogystal, mae'r mwyafrif yn cyrchu gwefan Croeso Cymru gartref.

Ar ba ddyfais?



A20. Yn y 12 mis diwethaf, pa ddyfeisiau ddefnyddioch chi i gyrchu gwefan Croeso Cymru? Pawb a ymwelodd â gwefan Croeso Cymru, n=773 Gartref, n=202 Yn ystod taith, n=207 Yn ystod taith i Gymru/yngh Nghymru/i rywle arall.





Effaith marchnata Croeso Cymru

Dylanwad Cyfathrebu

Roedd tua 3 o bob 10 person a gymerodd daith yn cydnabod bod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ymweld, gyda nifer hefyd yn cael eu hannog i archwilio ardaloedd newydd o Gymru.

Amseru Penderfyniad

Roedd dros hanner wedi cynllunio eu taith i Gymru yn 2023 erbyn diwedd 2022.



TEBYGOLRWYDD O YMWELD Â CHYMRU YN 2024




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Mae bron i hanner y bobl a aeth ar daith yn 2023 yn bwriadu ymweld â Chymru eto yn 2024. Mae pobl sy'n mynd ar deithiau yn 2023 hefyd yn fwy tebygol o ymweld yn 2024, o gymharu â'r rhai na ymwelodd yn 2023. Teuluoedd yw'r rhai mwyaf tebygol o wrthod yn llwyr.


Tebygolrwydd o ymweld â Chymru yn 2024



B5. A ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2024? Cyfanswm, n=1619 (Y rhai a gymerodd daith yn 2023 n=199, Y rhai na ymwelodd n=1420, Rhag-nythwyr n=85*, Teuluoedd n=206, Pobl annibynnol hŷn n=955, Oed ymddeol n=373). *maint sylfaen isel

Mae 6% o holl ymholwyr Croeso Cymru eisoes wedi archebu eu taith ar gyfer 2024. Mae bron i hanner y bobl a aeth ar daith yn 2023 yn bwriadu ymweld â Chymru eto yn 2024. Mae rhag-nythwyr a theuluoedd yn llai tebygol o ymweld.


Tebygolrwydd o ymweld â Chymru yn 2024



B5. A ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2024? Cyfanswm, n=1619 (Y rhai a gymerodd daith yn 2023 n=199, Y rhai na ymwelodd n=1420, Rhag-nythwyr n=85*, Teuluoedd n=206, Pobl annibynnol hŷn n=955, Oed ymddeol n=373). *maint sylfaen isel

Mae 43% o'r rhai sy'n bwriadu cymryd taith i Gymru yn 2024 yn nodi bod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd ar daith i Gymru yn 2024 – er bod y rhai sy'n dod o'r wefan yn llai tebygol o gael eu dylanwadu.

Dylanwad cyfathrebiad Croeso Cymru ar benderfyniad taith, yn ôl ffynhonnell y sampl




B10. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=492 (Gwefan n=372, Ymgyrch n=120).




Mae teuluoedd yn llai tebygol o gael eu dylanwadu ar eu penderfyniad i gymryd gwyliau neu daith fer i Gymru yn 2024 o gymharu â phobl sydd wedi ymddeol.

Dylanwad cyfathrebiad Croeso Cymru ar benderfyniad taith, yn ôl cyfnod bywyd




B10. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=492 (Rhag-nythwyr n=19*, Teuluoedd n=59*, Pobl Annibynnol Hŷn n=303, Oed ymddeol n=111). *maint sylfaen isel




Y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer 2024 yw De-orllewin Cymru. Mae'rrhai a ddywedodd eu bod yn debygol o ymweld (neu wedi archebu yn barod) fwyaf tebygol o ymweld rhwng Mai a Hydref.

Ble yng Nghymru ydych chi'n bwriadu ymweld yn 2024?




Mis ymweliad arfaethedig (2024)



B8_DE. Pa rai o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu ymweld â nhw ar eich gwyliau neu daith fer nesaf yng Nghymru yn 2024?
B7. Pryd ydych chi'n bwriadu cymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=492.

Mae bron i dri chwarter y rhai sy'n bwriadu trefnu taith yn 2024 yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024 gyda'u partner.

Cyfansoddiad criw ar gyfer taith i Gymru yn 2024, yn ôl cyfnod bywyd



B9. Pwy, os unrhyw un, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=492 (Rhag-nythwyr n=19*, Teuluoedd n=59*, Pobl Annibynnol Hŷn n=303, Oed ymddeol n=111). *maint sylfaen isel



O'r rhai sy'n annhebygol o ymweld â Chymru yn 2024, dywedodd mwy na hanner eu bod 'ddim yn gwybod' pryd y byddent yn ymweld â Chymru. Dywedodd 28% y byddent yn ymweld yn 2025.

Pryd yn debygol o ymweld â Chymru nesaf?

Ddim yn gwybod **51%**

Yn 2025  28%

Yn 2026  13%

2027 neu'n ddiweddarach  8%

B6. A phryd ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru nesaf am daith fer neu wyliau?
Pawb yn annhebygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu ddim yn siŵr, n=1127.



Deall y cynlluniau ar gyfer teithiau yn 2024

Ailadrodd yr Ymweliad

Mae tua hanner ymwelwyr 2023 yn bwriadu dychwelyd i Gymru yn 2024. Fodd bynnag, mae teuluoedd yn llai tebygol o ailymweld.

Effaith Marchnata

Mae 43% o ymwelwyr posibl wedi'u dylanwadu gan negeseuon Croeso Cymru.

Cymdeithion Teithio

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n cynllunio taith yn 2024 yn bwriadu ymweld â phartner.



RHESYMAU DROS BEIDIO Â MYND AR DAITH



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD





Roedd bron i hanner y rhai nad oeddent wedi cymryd taith yn ystyried taith i Gymru yn 2023. Ni chymerodd ychydig llai na chwarter yr ymholwyr hyn wyliau o gwbl, tra bod ychydig dros dri chwarter wedi mynd i rywle arall.

Roedd **43%** o'r rhai nad oedd wedi bod ar daith i Gymru yn ystyried taith dros nos i Gymru yn 2023

Es i rywle arall / dramor **55%**

Aethon ni rywle arall yn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon 24%

Aethon ni ddim ar wyliau o gwbl 23%


B1. Sonioch chi na wnaethoch gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn ystod 2023. A oeddech chi'n ystyried taith dros nos i Gymru/yng Nghymru yn 2023 ar unrhyw adeg?
B2. Ac a aethoch chi rywle arall am wyliau, neu aethoch chi ddim ar wyliau o gwbl?
Y rhai na aethont ar daith i Gymru 2023, n=629.





O'r rhai nad iddynt ymweld â Chymru a aeth i rywle arall ym Mhrydain ac Iwerddon, Lloegr oedd y gyrchfan amgen yr ymwelwyd â hi amlaf.

Cyrchfan y rhai a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain ac Iwerddon



B3. Ac i ba un o'r ardaloedd canlynol o Ynysoedd Prydain ac Iwerddon aethoch chi?
Y bobl na ymwelodd â Chymru a aeth rywle arall yn Ynysoedd Prydain, n=144.






Yn 2023, y prif resymau dros beidio ag ymweld â Chymru oedd amgylchiadau personol a heriau teithio cysylltiedig â Brexit. Rhesymau ‘eraill’ oedd ffafrio cyrchfannau gwahanol neu ddiffyg amser

Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023

Amgylchiadau
personol **38%**





Rhesymau dros beidio â mynd ar daith

Diddordeb Posibl

Roedd bron i hanner y rhai na ymwelodd â Chymru yn 2023 yn ei ystyried.

Rhesymau dros Beidio ag Ymweld

Y prif resymau a roddwyd dros beidio ag ymweld â Chymru oedd amgylchiadau personol a rhwystrau teithio yn ymwneud â Brexit

